



# Gorffennol Digidol Digital Past - 2021

## WAVE PROFIADAU YMGOLLOL MEWN AMGUEDDFEYDD

Amy Shakespeare, Rheolwr Arloesedd, [Partneriaeth Amgueddfeydd Cernyw](#)



[Gorffennol Digidol 2021](#): Technolegau newydd ym meysydd treftadaeth, dehongli ac estyn-allan | 8<sup>ed</sup> – 12<sup>ed</sup> Chwefror 2021, ar-lein drwy Zoom.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English.

Yn y papur hwn trafodir y tri llinyn allweddol a dargedir gan y prosiect wAVE: Adfywio Digidol, Dylunio Defnyddiwr-Ganolog, ac Effaith a Gwaddol. At ei gilydd, caiff y llinynnau hyn eu cyd-destunoli drwy egluro nodau'r prosiect a'r prif heriau a wynebir.

Adfywio Digidol – newid canfyddiadau drwy ystyried sut y gall technolegau arloesol wella a newid y ffordd y mae ymwelwyr yn profi ac yn rhyngweithio â threftadaeth. Byddwn yn ymdrin â'r llinyn hwn drwy yn gyntaf drafod ein partneriaeth ag Academi Gemau Prifysgol Falmouth, sy'n datblygu'r dechnoleg a'r feddalwedd ar gyfer pob un o'r profiadau ymgollol. Yn ail, byddwn yn rhannu'r hyn a ddysgw'n am ddatblygu partneriaethau organig â chwmnïau technoleg fel Hi9 er mwyn dangos sut y gall partneriaethau o'r fath helpu i hybu datblygiadau arloesol gydag amgueddfeydd a chymdeithasau treftadaeth.

Dylunio Defnyddiwr-Ganolog – rhoi staff, gwirfoddolwyr, a chymunedau yng nghanol y broses ddylunio i sicrhau bod y profiadau'n cwrdd ag anghenion defnyddwyr y dyfodol. Byddwn ni'n trafod y broses dylunio defnyddiwr-ganolog, gan roi sylw i grwpiau ffocws gwahanol sefydliadau addysgol ac i brofi mwy cyffredinol gan ddefnyddwyr yn y gymuned. I gloi, ystyrir prif effeithiau'r broses hon ar y profiadau a grëwyd gan wAVE.

Effaith a Gwaddol – codi proffil diwylliant a threftadaeth unigryw Cernyw. Sicrhau bod busnesau'n barod am y dyfodol drwy ddarparu hyfforddiant am ddim mewn sgiliau digidol a thechnoleg ymgollol, i alluogi busnesau twristiaeth i fanteisio ar y cyfle a gynigir gan dechnoleg ymgollol. Canolbwyntir ar y sesiynau Cyflwyniadau Technoleg Ymgollol sy'n cael eu cynnal drwy gydol y prosiect ac, yn arbennig, ar pam mae'r math hwn o hyfforddiant mor bwysig mewn cymunedau gwledig fel Cernyw ac Ynysoedd Sili. Mae'r ymdrechion hyfforddi hyn wedi helpu i feithrin ymdeimlad o fod yn berchen ar newid technolegol ymhlith Mentrau Bach a Chanolig drwy roi i bobl y sgiliau a'r wybodaeth i ddechrau cofleidio technolegau arloesol a fydd o fudd i'w busnes.

## Bywgraffiad

Rheolwr Arloesedd Partneriaeth Amgueddfeydd Cernyw yw Amy.

Cyn cael ei phenodi i'r swydd hon bu'n gweithio yn Amgueddfa Forwrol Genedlaethol Cernyw a chyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ym maes profiad ymwelwyr yn Godolphin, yr Arfordir Tun, a phortffolio Gorllewin Cernyw.

Mae hi'n astudio am PhD gyda Phrifysgol Caerwysg ac mae hi hefyd yn un o Hyrwyddwyr y Mudiad Ymddiriedolwyr Ifanc, ac roedd hi'n Egin Arweinydd Clore, swydd wedi'i hariannu gan Historic England, yn 2019. Dyfarnwyd iddi Wobr yr Athro Susan Pearce am ei

thraethawd MA, 'What If We Want To Give It Back? The Potential of Democratising the Repatriation Process in Britain'.

